# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Ty Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2011** |
| Amser: | **08:30 - 08:36** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Jocelyn Davies**<br>**William Graham**<br>**Jane Hutt** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nodwyd y cofnodion gan y Pwyllgor ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3. Trefn Busnes

### 3(i) Busnes yr wythnos hon

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes ddydd Mawrth. Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y ddadl fer ddydd Mercher.

### 3(ii) Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3(iii) Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i restru’r eitemau o fusnes a ganlyn:

**Dydd Mawrth 10 Ionawr 2012**

- Dadl Fer – Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru) (30 munud)

**Dydd Mercher 25 Ionawr 2012**

- Dadl gan Aelod unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

## 4. Pwyllgorau

### 4(i) Y Pwyllgor Deisebau: Cais i gynnal cyfarfod ffurfiol oddi ar y safle

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gais gan y Pwyllgor Deisebau i gynnal cyfarfod ffurfiol yng Nghaerfyrddin ddydd Mawrth 28 Chwefror 2012.

## 5. Busnes Arall

### 5(i) Toriad y Nadolig: Trefniadau cyflwyno ar gyfer Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth

Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y trefniadau cyflwyno arfaethedig ar gyfer Gwasanaethau’r Siambr a Deddfwriaeth dros doriad y Nadolig.